Is-adran Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar
Early Years Childcare and Play Division

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

| **Cylchlythyr Llywodraeth Cymru Rhif:** | **WGC 004/2023** | **Dyddiad cyhoeddi:** | 7 Tachwedd 2023 |
|---|---|---|---|

| **Statws:** | **I'w weithredu** |
|---|---|

| **Teitl:** | **Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i Blant hyd at 12 oed – Safon 13.4 (GP) Estyniad i'r cyfnod cydymffurfio, a dau newid amrywiol arall.** |
|---|---|

| **Cyhoeddwyd gan:** | |
|---|---|
| Clare Severn/Rebecca Johnson Dirprwy Gyfarwyddwyr Dros Dro, Is-adran Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar | |
| **Cyfeiriwyd at:** | **Anfonwch ymlaen at:** |
| Arolygiaeth Gofal Cymru<br>Gofal Cymdeithasol Cymru<br>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol<br>Cydgysylltwyr Gofal Plant Awdurdodau Lleol<br>Cydgysylltwyr Chwarae Awdurdodau Lleol<br>Timau Dechrau'n Deg Awdurdodau Lleol<br>AWARE<br>Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd Awdurdodau Lleol<br>Consortiwm Gofal Plant CWLWM<br>Chwarae Cymru | Yr holl wasanaethau gwarchod plant a gofal dydd cofrestredig a phartïon eraill â buddiant |

| **Crynodeb** | |
|---|---|
| Cyhoeddir y Cylchlythyr hwn gyda chytundeb y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol. Gofynnwn i chi sicrhau bod y cynnwys yn cael ei ddosbarthu i'r holl bartïon sydd â buddiant cyn gynted â phosib.<br><br>Pwrpas y Llythyr Cylchlythyr hwn yw rhoi gwybod i'r sector gofal plant a gwaith chwarae yng Nghymru am estyniad i'r cyfnod cydymffurfio ar gyfer Safon 13.4 (GP) o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir a dau newid amrywiol arall. | |
| **I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:** | |
| | E-bost: gofalplantachwarae@llyw.cymru<br>Gwefan: www.llyw.cymru |

**Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed: y newidiadau diweddaraf**

Ym mis Mai 2023 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddiweddariad i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir, gan gyflwyno safon newydd i warchodwyr plant sy'n gweithio gyda chynorthwywyr fel y nodir isod:

13.4 (GP) Rhaid i unrhyw gynorthwy-ydd a gyflogir gan warchodwr plant fod wedi cwblhau'n llwyddiannus gwrs priodol a gydnabyddir yn Fframwaith Cymwysterau Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae gofyn i gynorthwywyr fod wedi ennill y cymhwyster gofynnol erbyn diwedd Tachwedd 2023.

Mae'r cylchlythyr hwn yn ymestyn y dyddiad ar gyfer bodloni'r gofyniad hwn tan 30 Tachwedd 2024. Mae hyn er mwyn caniatáu digon o amser i gael mynediad at gwrs priodol a'i gwblhau. Mae'r safon bellach yn darllen fel a ganlyn:

**13.4 (GP) Rhaid i unrhyw gynorthwy-ydd a gyflogir gan warchodwr plant fod wedi cwblhau'n llwyddiannus gwrs priodol a gydnabyddir yn Fframwaith Cymwysterau Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'n ofynnol i gynorthwywyr fod wedi ennill y cymhwyster gofynnol erbyn diwedd Tachwedd 2024.**

Rydym hefyd wedi defnyddio'r cyfle hwn i wneud dau newid ychwanegol i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir fel a ganlyn:

1. Ym mis Mehefin 2023, yn dilyn adborth gan randdeiliaid sy'n cynrychioli'r sector addysg a'r sector gofal plant ac ar ôl ystyriaeth ofalus, cytunodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a Gweinidog y Gymraeg ac Addysg y dylai'r term addysg a gofal plentyndod cynnar gael ei ddisodli gan y term Chwarae, Dysgu a Gofal

Plentyndod Cynnar. Felly, mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol bellach yn adlewyrchu'r newid mewn terminoleg.

2. Mae geiriad troednodyn 14 yn Atodiad B ar dudalen 76 o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol sy'n darllen:

'Mae wyneb yn wyneb yn golygu bod yr hyfforddwyr yn bresennol yn gorfforol gyda'u hyfforddeion, lle bo hynny'n bosibl. Nid yw hyn yn cynnwys sesiynau ar-lein.'

wedi'i ddiwygio i ddarllen:

**Mae wyneb yn wyneb yn golygu bod hyfforddwyr yn bresennol yn gorfforol gyda'u hyfforddeion. Nid yw hyn yn cynnwys sesiynau ar-lein.**

Mae hyn yn egluro'r sefyllfa o ran yr hyfforddiant wyneb yn wyneb gorfodol sy'n ofynnol ar gyfer Cymorth Cyntaf Pediatrig mewn Argyfwng.

Cyfeiriwch nawr at y fersiwn ddiweddaraf o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol a gyhoeddwyd ar-lein, dyddiedig Tachwedd 2023. Ailgylchu unrhyw gopïau papur y gallech fod wedi'u hargraffu i sicrhau eich bod yn cyfeirio at y fersiwn ddiweddaraf o'r Safonau.